Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais gan gwmni am wybodaeth ceidwad ar adeg digwyddiad

**V888/2 AW**

Darllenwch y nodiadau isod cyn ichi lenwi'r ffurflen hon

## Nodiadau canllaw a gwybodaeth berthnasol – ymholiadau £2.50

**Dylid gwneud sieciau ac archebion post yn daladwy i 'DVLA, Abertawe'. Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu wedi'u newid. Os ydych yn anfon siec sydd wedi'i difrodi neu wedi'i newid, bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd atoch. Peidiwch ag anfon arian parod. Anfonwch y ffurflen hon ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth ychwanegol a'r ffi briodol i: DVRE, DVLA, Abertawe, SA99 1AJ.**

Efallai y bydd copi o'r cais hwn yn cael ei roi i'r ceidwad cofrestredig os ydynt yn gofyn amdano.

Os ydych chi'n prosesu neu storio unrhyw wybodaeth bersonol yn electronig, mae'n rhaid i chi gael rhif cofrestru diogelu data. Am ragor o wybodaeth ar sut i gael y rhif, ewch i wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk

Os ydych eisiau gwybodaeth am unigolyn a enwyd neu hanes gerbyd, defnyddiwch ffurflen V888/2BW.

### Mwy nag un cais

Os ydych chi'n gwneud mwy nag un cais am wybodaeth, gallwch chi anfon, ar bapur pennawd cwmni, rhestr â hyd at 15 cerbyd ar bob tudalen. Rhaid ichi ddarparu gwneuthuriad a model, dyddiad y digwyddiad a'ch rhif cyfeirnod ar gyfer pob cerbyd.
Rhaid cynnwys ffi o £2.50 am bob cerbyd.

### Gwasanaeth electronig

Os ydych chi'n gwneud ceisiadau am wybodaeth yn aml, efallai y dylech ystyried defnyddio'r gwasanaeth electronig. I gael mwy o wybodaeth e-bostiwch **kadoe-interest@dvla.gov.uk**

**Am ganllawiau ar sut i ofyn am wybodaeth gan DVLA, gweler MIS546W 'Rhoi gwybodaeth i bobl o'n cofnodion cerbyd' yn www.gov.uk/government/publications/giving-people-information-from-our-vehicle-record.cy**

Defnyddiwch INC DU a PHRIFLYTHRENNAU wrth lenwi'r adrannau isod a dros y dudalen

## 1. Manylion y cwmni

Enw'r cwmni:

Enwau masnachu eraill (os yn berthnasol):

Cyfeiriad (nid cyfeiriad Blwch Swyddfa'r Post):

Cod post:

Rhif ffôn cyswllt:

Cyfeiriad e-bost:

Gall y manylion a ddarparwyd cael eu defnyddio i gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

Rhif cofrestru diogelu data:

Dyddiad dod i ben:

**Noder:** Os yw'r cyfeiriad sy'n gysylltiedig a'ch rhif cofrestru diogelu data yn wahanol i'r un a nodwyd ar wefan yr ICO, neu os nad oes gennych rif cofrestru diogelu data, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cyfeiriad presennol. Er enghraifft, ar bapur pennawd cwmni neu anfoneb. Os nad ydych yn darparu tystiolaeth, ni fyddwn yn gallu delio gyda'ch cais a byddwn yn ei dychwelyd i chi.

Rhif Tŷ'r Cwmnïau (os yn berthnasol):

Eich rhif cyfeirnod (os yn berthnasol):

## 2. Manylion y cerbyd rydych chi am gael gwybodaeth amdano

Rhif cofrestru cerbyd:

Gwneuthuriad a model (os yn anhysbys, esboniwch pam):

Yr union ddyddiad y digwyddiad:

Nodwch pa wybodaeth sydd ei hangen, pam rydych chi ei hangen a sut rydych chi'n mynd i'w defnyddio.

Parhewch ar dudalen arall os oes angen.

Prynu cerbyd?
Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi drethu cyn i chi ei ddefnyddio.
www.gov.uk/vehicletaxrules

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

## 3. Pa wybodaeth ydych chi ei heisiau?

Rhowch rif cofrestru cerbyd yr ydych yn gwneud ymholiad amdano

Dewiswch yr opsiwn cywir:

**A) Damweiniau (cyfreithwyr, cwmnïau yswiriant ayb)** ☐

Amgylchiadau llawn y digwyddiad:

Lleoliad llawn (yn cynnwys cod post) y digwyddiad.
Os yn drafordd, darparwch y gyffordd agosach:

Rhif cofrestru cerbyd y cleient:

Gwneuthuriad a model y cerbyd (os yn anhysbys, esboniwch pam):

**B) Asiantaethau casglu dyledion** ☐

Darparwch lythyr awdurdodol wedi ei arwyddo gan y cwmni parcio.

**C) Gweithredwr gorsaf petrol – gyrru bant** ☐

Darparwch:

- adroddiad gyrru bant wedi ei gwblhau yn llawn ac wedi ei arwyddo
- dderbynneb til
- brawf o gyfeiriad (tystiolaeth storio)
- awdurdodiad wedi ei lofnodi os ydych chi'n gweithredu ar ran gweithredwr gorsaf petrol

**D) Cerbydau wedi'u gadael neu gerbydau wedi eu parcio yn barhaus** ☐

Lleoliad llawn (yn cynnwys cod post) y digwyddiad:

Os yw'r cerbyd wedi ei barcio yn barhaus, rhowch y dyddiad y gwelwyd diwethaf:

Ydych chi'n berchen ar y tir? Ydw ☐ Nac ydw ☐ (os nad ydych yn berchennog y tir, darparwch lythyr awdurdodol ar ran y perchennog tir sy'n eich awdurdodi chi i weithredu ar eu rhan).

Os mai chi sy'n berchen ar y tir, darparwch:

- ffotograff sydd heb gael ei newid o'r cerbyd wedi'i adael yn y lle gwreiddiol yn dangos yn glir y rhif cofrestru.

**E) Garejys neu waith a gwblhawyd** ☐

Darparwch anfoneb o waith a gwblhawyd.

**F) Difrod i eiddo personol neu gwmni** ☐

Amgylchiadau llawn y digwyddiad:

Lleoliad llawn (yn cynnwys cod post) y digwyddiad:

Darparwch:

- ddyfynbris neu anfoneb am y gwaith a gwblhawyd i drwsio
- ffotograff o'r difrod.

**G) Arall** ☐

Os nad yw'ch senario wedi ei restri, neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, gwiriwch www.gov.uk/request-information-from-dvla

## 4. Datganiad – Rhaid i chi arwyddo a dyddio'r datganiad hwn neu ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais

**Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Ni fyddaf yn defnyddio'r wybodaeth a roddir imi at unrhyw ddiben arall heblaw am yr hyn a nodwyd yn adran 2 ac ni fyddaf yn pasio ymlaen y wybodaeth at drydydd parti arall heb ganiatâd DVLA. Rwy'n ymwybodol ei bod yn drosedd i gaffael ar wybodaeth bersonol yn anghyfreithlon sy'n groes i ddeddfwriaeth diogelu data. Y cosbau am y troseddau hyn yw dirwyon a gyhoeddir gan Llys Ynadon neu Llys y Goron.

Rwy'n ymwybodol bod gen i ddyletswydd gyfreithlon i drafod a chael gwared ar unrhyw wybodaeth a ddarparwyd i mi gan DVLA yn unol ag egwyddorion deddfwriaeth diogelu data. Rwy'n ymwybodol am ac yn cytuno i'r amodau a thelerau a nodwyd isod.

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Mx ☐

Enw llawn:

Swydd yn y cwmni:

Llofnod:

Dyddiad:

## Termau, amodau a gwybodaeth diogelu data

Mae rhaid i bob tystiolaeth sy'n cefnogi eich ymholiad cael ei chadw am o leiaf dwy flynedd o ddyddiad yr ymholiad.

Mae rhaid i chi roi i DVLA, neu asiant yn gweithredu ar ein rhan, mynediad at y dystiolaeth hon ac unrhyw wybodaeth ynghylch eich defnydd o'n gwybodaeth ar gais.

Unwaith rydych wedi gorffen gyda'r wybodaeth, mae rhaid i'r data personol a rhoddir gan DVLA cael ei dileu ar unwaith.

Ni allwch basio ymlaen gwybodaeth oddi wrth DVLA i drydydd parti arall nad ydynt yn gweithredu ar eich rhan fel is-gontractwr heb ganiatâd DVLA. Ysgrifennwch at dvladatarequest@dvla.gov.uk os ydych eisiau rhannu gwybodaeth gyda thrydydd parti.

Os byddwn yn derbyn cwyn cyfreithlon neu yn derbyn tystiolaeth eich bod wedi cael, defnyddio neu drafod gwybodaeth yn anghyfreithlon ac yn torri egwyddorion deddfwriaeth diogelu data, gallwn ei phasio at y Comisiynydd Gwybodaeth a gwrthod unrhyw geisiadau pellach.

Gallwch ddod o hyd i'r arweiniad diweddaraf a mwy o fanylion am ryddhau gwybodaeth o'n cofnodion ar ein gwefan www.gov.uk/request-information-from-dvla

Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith cerbydau ffyrdd a chyfreithiau gwarchod data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi ni i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i gwmnïau eraill ble y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu gyda, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn www.gov.uk/government/publications/dvla-privacy-policy.cy